# RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd Ddydd Mawrth, 3 Rhagfyr, 2024

**Presennol**: Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)
Cynghorydd Non Dafydd (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Kenneth P Hughes, Trefor Ll Hughes MBE, Aled M Jones, Dyfed W Jones, Gwilym O Jones, John Ifan Jones, Robert Ll Jones, Euryn Morris, Jackie Lewis, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio A Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret M Roberts, Ken Taylor, Dafydd R Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams, Arfon Wyn

**Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Carwyn Jones, Nicola Roberts, Alwen Watkin, Liz Wood a Paul Ellis

(2.20 o'r gloch yp - 3.30 o'r gloch yp)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **1. Cofnodion** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol o Gyngor Sir Ynys Môn yn gywir:-<br><br>• 26 Medi, 2024<br>• 6 Tachwedd, 2024 (Arbennig) |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2. Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Fe wnaeth y Cynghorydd Derek Owen ddatgan buddiant personol yn gysylltiedig ag Eitem 4 – Rhybudd o Gynnig – Mân-ddaliadau, gan fod ei frawd yn rhentu mân-ddaliad. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4. Rhybudd o Gynnig yn Unol Â Rheol 4.1.13 .1 Y Cyfansoddiad** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd – y Rhybuddion o Gynnig isod gan y Cynghorydd Kenneth P Hughes:-<br><br>• *'Rydym yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i fabwysiadu polisi hollgynhwysfawr o wrthwynebiad i ddatblygiad ffermydd solar yng nghefn gwlad Ynys Môn.'*<br><br>**Cafodd y gynnig hwn ei dynnu'n ôl.**<br><br>• *'Rydym yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn, o ganlyniad i'r ansicrwydd o fewn y diwydiant* |

| | |
|---|---|
| | *amaethyddol, i gadarnhau ei ymrwymiad i amaeth ar Ynys Môn drwy sicrhau bod yr holl waith trwsio angenrheidiol i adeiladau amaethyddol yn Stad Mân-ddaliadau y Cyngor Sir yn cael ei gwblhau fel mater o frys. Yn ogystal, bod adolygiad o'r fformiwla cyllido ar gyfer y Stâd Mân-ddaliadau yn cael ei chychwyn'.*<br><br>***Derbyniwyd y Cynnig.***<br><br>Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd Derek Owen:-<br><br>*'Rydym yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i geisio cyfarfod brys â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net, Ed Miliband, er mwyn ei alluogi i gadarnhau dyddiad dechrau ar gyfer prosiect Wylfa Newydd ar safle Wylfa yng Nghemaes.*<br><br>*Safle Wylfa yw'r gorau yn Ewrop ar gyfer lletya gorsafoedd pŵer niwclear neu orsafoedd.*<br><br>*Mae hyn yn dilyn y llythyr a anfonwyd gan Gyngor Cymuned Llanbadrig yn ceisio atebion.'*<br><br>**Derbyniwyd y Cynnig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5. Cyflwyno Deisebau** |
| PENDERFYNIAD | **Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6. Adolygiad Rheoli'r Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2023/24** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr Adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2023/24 sy'n cadarnhau bod y gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24 a cydymffurfiwyd â'r cyfyngiadau a nodir yn y strategaeth.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7. Datganiad o'r Cyfrifon 2023/2024 a'r** |

| | |
|---|---|
| | **Adroddiad ISA 260** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD derbyn Datganiad Cyfrifon 2023/24 ac awdurdodi Cadeirydd y Cyngor Sir a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i arwyddo'r cyfrifon.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8. Cydbwysedd Gwleidyddol Pwyllgorau** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD:-**<br><br>• **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgor.**<br>• **Bod Arweinyddion y Grwpiau yn hysbysu'r Pennaeth Democratiaeth cyn gynted ag y bo modd ynglŷn ag unrhyw newid o ran aelodaeth grwpiau ar Bwyllgorau.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9. Datganiad Polisi Gamblo 2025-2028** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD mabwysiadu'r Datganiad Polisi Gamblo ar gyfer 2025-2028.** |